

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD HYDREF 2020
5 Hydref 2020 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

CYFARFOD A GYNHALIWYD O BELL DRWY GYFRWNG FIDEO

1. Presennol

Nia Povey, Glyn Griffiths, Elin Jones, Dion Roberts,

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Dafydd Watts

Ymddiheuriadau:

Llio Griffiths

2. Datgan Diddordeb

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Watts ddiddordeb yn eitem 4.1 oherwydd ei fod yn byw dros y ffordd i Gae Isaf Carreg Frech a'r Cynghorydd Dion Roberts oherwydd ei fod yn byw yn Garreg Frech.

3. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 7 Medi 2020 a 14 Medi 2020, ond bod angen cyfeirio fod y Cynghorydd Elin Jones yn bresennol yng nghyfarfod 14 Medi 2020.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Nia Povey

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

4.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech

Drafftiodd y Cynghorydd Dafydd Watts a'r Cynghorydd Nia Povey ymateb i lythyr a deiseb trigolion Carreg Frech. Wedi trafodaeth, cytunwyd ar fersiwn fydd yn cael ei ddanfod i bawb ar gyfer sylwadau terfynol.

Cytunwyd i drefnu cyfarfod cyhoeddus drwy gyfrwng y we wedi i arolwg Cynefin ar yr angen am dai yn lleol gael ei gwblhau. Gofynnwyd i'r Clerc holi Un Llais Cymru am gymorth o ran trefnu cyfarfod cyhoeddus drwy gyfrwng y we ac am awgrymiadau am hwylusydd.

4.2 13 Garreg Frech

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Helen Mary Jones, aelod Senedd Cymru parthed y mater. Ysgrifennodd hithau at Gyngor Gwynedd yn mynegi safbwynt y Cyngor Cymuned. Disgwylir ateb.

Bu'r Clerc hefyd yn gohebu efo Mabon ap Gwynfor sy'n ymwybodol o gefndir y mater. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Mabon ap Gwynfor unwaith eto.

4.3 Y Ganolfan

Mae'r Clerc wedi gofyn eto i adran eiddo Cyngor Gwynedd ddanfôn aelod o staff o i archwilio cyflwr yr adeilad, cyn bod penderfyniad yn medru cael ei wneud am ddyfodol yr adeilad.

Mae'r Clerc hefyd yn gohebu efo adran drethi Cyngor Gwynedd er mwyn gweld os medrir cael ad-daliad am y dreth fusnes sydd wedi bod yn cael ei dalu ar yr adeilad ers rhai blynyddoedd.

Credir nad oedd treth fusnes yn cael ei dalu tan y daeth Gwynedd yn gyngor unedol yn dilyn ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996.

4.4 Mynwent Tan Lan

Mae Dylan Edwards yn disgwyl gorffen y gwaith o osod polion a rheiliau newydd uwchben y man troi ceir, a chlirio'r drain erbyn diwedd yr wythnos.

Mae'r Cynghorwyr Richard Jones a Glyn Griffiths yn bwriadu cyfarfod efo Richard Pearson yn y fynwent er mwyn trafod pa goed sydd angen eu torri.

4.5 Eglwys Sant Brothen

Cafwyd ateb gan adran eiddo Cyngor Gwynedd yn cadarnhau nad hwy sydd berchen y fynwent. Dydy'r darn fynwent ddim wedi ei gofrestru gan y gofrestrfa dir.

Gan nad oedd gwybodaeth bellach am berchnogaeth y fynwent, penderfynwyd gadael y mater am y tro.

4.6 Goryrru Llanfrothen

Cwblhawyd arolwg o gyflymder ceir yng nghanol pentref Llanfrothen ar ddau safle – safle 1 ger y Ring a safle 2 ger y siop.

Roedd yr arolwg yn dangos nad oes yna oryrru yn digwydd yn safle 1 - gall hyn fod oherwydd bod y lôn yn gul a thai wrth ymyl.

O ran safle 2, yna mae 85% o geir yn torri'r cyfyngiad cyflymder o 30 m.y.a. gan deithio ar gyflymder cyfartalog o 36.5 m.y.a..

Cytunwyd y dylid ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn a fyddai'n bosibl gosod arwyddion fflachio ger y siop, neu fesurau eraill i arafu traffig. Hefyd i ofyn a fyddai'n bosibl gosod cyfyngiad cyflymder o 40mya cyn dod i mewn i bentref Llanfrothen, fel bod ceir yn arafu yn raddol i 30 m.y.a.

Yn ogystal, gan fod Cyngor Gwynedd wedi sôn am osod sribedi mesur cyflymder ar y ffordd i mewn i Lanfrothen o gyfeiriad Nantmor, cytunwyd y dylid ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i holi os oedd hyn yn bosibl.

4.7 Cyfethol Aelod

Cyfetholwyd yn unfrydol, Eleri Owen o Groesor ar gyfer y sedd wag.

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Glyn Griffiths

4.8 Claddu Peilonau o dan yr afon Dwryd/Llwybr Beics Llanfrothen

Cytunodd y Cynghorydd Dion Roberts i holi Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn gweld os oes arian ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol.

Cafwyd manylion pellach gan National Grid ar sut i gael unrhyw fuddiant cymunedol o'r prosiect yma. Ni fydd cynghorau cymuned yn medru cael budd uniongyrchol ac felly mae angen edrych ar sefydlu menter ar y cyd, e.e. efo sefydliadau tebyg i Benrhyndeudraeth Cyf.

Gan nad oedd amser i drafod y mater yn fanwl, cytunwyd i drafod y mater eto, a chael y Cynghorydd Gareth Thomas i fynychu'r cyfarfod..

4.9 Coed Obry, Llanfrothen

Mae adran gynllunio Cyngor Gwynedd bellach yn gofyn am ffurflen benodol i gael ei gwblhau os yn cysylltu efo nhw ar faterion cynllunio. Bydd y Clerc yn cwblhau'r ffurflen a'i danfon at adran gynllunio Cyngor Gwynedd.

5. Materion Ariannol

5.1 Cyflog Clerc Medi 2020 - £214.40

TWE £53.40

Cytunwyd i wneud y taliadau uchod.

6. Gohebiaeth

Dim

7. Ceisiadau Cynllunio

Dim

8. Materion Eraill

8.1` Ymgynghoriad Canllaw Cynllunio Atodol Parc Cenedlaethol Eryri - Ymrwymadau Cynllunio Atodol

Cytunwyd i ystyried y mater yma yng nghyfarfod mis Tachwedd, gan fod tan 13 Tachwedd i ddarparu ateb.

8.2 Cefnogi Cynnig Cyngor Tref Nefyn i godi tâl ar ymwelwyr â'r Wyddfa

Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi Cynnig Cyngor Tref Nefyn.

8.3 Wal Gerrig Ffordd Croesor

Mae wal gerrig ar ffordd Croesor, ar y dde wedi mynd heibio Plas Brondanw, ond cyn cyrraedd y troad am Gefn Dreiniog wedi dechrau disgyn cerrig ar hyd y ffordd.

Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i'w hysbysu o'r broblem.

8.4 Cofeb Llanfrothen

Mae Colin Rayner wedi bod yn paentio'n wirfoddol ganllaw a gathiau'r Gofeb yn Llanfrothen ers blynyddoedd, ond wedi hysbysu na fydd yn medru gwneud y gwaith yn y blynyddoedd i ddod.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu ato i ddiolch iddo am ei waith dros y blynyddoedd.

Bydd angen trafod efo Stad Brondanw ai'r nhw ddylai fod yn gyfrifol am y gwaith yn y dyfodol.

8.5 Biniau Halen

Mae Cyngor Gwynedd wedi danfon rhestr o'r holl finiau halen yn y plwyf, ac wedi gofyn pa rai sydd angen eu llenwi am y gaeaf.

Cytunodd pawb i wirio'r biniau halen a rhoi gwybod pa rai sydd angen eu llenwi.

8.6 Polisiâu a dogfennau

Cytunwyd i drafod y ddogfennaeth polisi yng nghyfarfod mis Tachwedd, yn enwedig polisi cyflogaeth yn arbennig.

8.7 Covid-19

Penderfynwyd gwahodd Lauren Hill sy'n gweithio i'r Dref Werdd i gyfarfod mis Tachwedd i drafod ei gwaith yn y gymuned ac os medr y Cyngor Cymuned gynnig unrhyw gymorth, yn enwedig dros fisoedd y gaeaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell – 2 Tachwedd 2020
am 7:30 yr hwyr. Bydd y cyfarfod yma yn gyfarfod blynyddol
hefyd.**